



Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cywiro gwallau yn O.S. 2022/907 (Cy. 198) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.

This Statutory Instrument corrects errors in S.I. 2022/907 (W. 198) and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2022 Rhif 1077 (Cy. 228)

2022 No. 1077 (W. 228)

TAI, CYMRU

HOUSING, WALES

**Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi
(Cymru) 2016 (Diwygiadau
Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth)
(Diwygio) 2022**

**The Renting Homes (Wales) Act
2016 (Consequential Amendments
to Secondary Legislation)
(Amendment) Regulations 2022**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) (“Deddf 2016”) yn darparu y bydd y rhan fwyaf o denantiaethau a thrwyddedau ar gyfer anheddau y mae unigolion yn eu meddiannu fel cartrefi yng Nghymru yn gontractau meddiannaeth. Mae Deddf 2016 hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch telerau contractau meddiannaeth.

Mae Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022 (O.S. 2022/907 (Cy. 198)) (“Rheoliadau 2022”) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth i adlewyrchu'r darpariaethau newydd yn Neddf 2016. Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro mân wallau technegol a theipograffyddol yn Rheoliadau 2022.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1) (“the 2016 Act”) provides for most tenancies and licences of dwellings occupied by individuals as homes in Wales to be occupation contracts. The 2016 Act also makes provision as to the terms of occupation contracts.

The Renting Homes (Wales) Act 2016 (Consequential Amendments to Secondary Legislation) Regulations 2022 (S.I. 2022/907 (W. 198)) (“the 2022 Regulations”) make consequential amendments to secondary legislation to reflect the new provisions in the 2016 Act. These Regulations correct minor technical and typographical errors in the 2022 Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this instrument.

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cywiro gwallau yn O.S. 2022/907 (Cy. 198) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.

This Statutory Instrument corrects errors in S.I. 2022/907 (W. 198) and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2022 Rhif 1077 (Cy. 228)

2022 No. 1077 (W. 228)

TAI, CYMRU

HOUSING, WALES

**Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi
(Cymru) 2016 (Diwygiadau
Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth)
(Diwygio) 2022**

**The Renting Homes (Wales) Act
2016 (Consequential Amendments
to Secondary Legislation)
(Amendment) Regulations 2022**

Gwnaed 24 Hydref 2022
Gosodwyd gerbron
Senedd Cymru 25 Hydref 2022
Yn dod i rym 30 Tachwedd 2022

Made 24 October 2022
Laid before Senedd Cymru 25 October 2022
Coming into force 30 November 2022

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 255 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by section 255 of the Renting Homes (Wales) Act 2016(1), make the following Regulations.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Tachwedd 2022.

**Diwygio Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi
(Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022**

2.—(1) Mae Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Renting Homes (Wales) Act 2016 (Consequential Amendments to Secondary Legislation) (Amendment) Regulations 2022.

(2) These Regulations come into force on 30 November 2022.

**Amendment of the Renting Homes (Wales) Act
2016 (Consequential Amendments to Secondary
Legislation) Regulations 2022**

2.—(1) The Renting Homes (Wales) Act 2016 (Consequential Amendments to Secondary Legislation) Regulations 2022(2) are amended as follows.

(1) 2016 dccc 1. Diwygiwyd adran 255(2) gan adran 14 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (dsc 3) a pharagraffau 1 ac 8 o Atodlen 5 iddi.

(2) O.S. 2022/907 (Cy. 198).

(1) 2016 anaw 1. Section 255(2) was amended by section 14 of and paragraphs 1 and 8 of Schedule 5 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021 (asc 3).

(2) S.I. 2022/907 (W. 198).

(2) Yn Atodlen 1 (diwygiadau o ganlyniad i gyhwyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016)—

- (a) yn lle'r pennawd i baragraff 3 (Tenantiaethau Sicr (Hysbysiad i'r Tenant) 1981(1)), yn y testun Cymraeg, rhodder “Rheoliadau Tenantiaethau Sicr (Hysbysiad i'r Tenant) 1981”;
- (b) ym mharagraff 19 (Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) 1997(2)) yn is-baragraffau (b)(ii) a (iii), hepgorer “monthly”;
- (c) ym mharagraff 20 (Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 (Cynlluniau Buddsoddi Torfol) 2001(3)), yn is-baragraff (a), yn lle “paragraff”, rhodder “is-baragraff”;
- (d) ym mharagraff 21 (Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2003(4)), yn y testun Saesneg, yn lle is-baragraff (a), rhodder—
 - “(a) in regulation 2 (interpretation)—
 - (i) after the definition of “the Common Travel Area”, omit “and”;
 - (ii) for the full stop at the end of the definition of “the immigration rules”, substitute “; and”;
 - (iii) after the definition of “the immigration rules”, insert—
 - ““secure contract” (“*contract diogel*”) has the same meaning as in the Renting Homes (Wales) Act 2016 (see section 8 of that Act).”;
- (e) ym mharagraff 30 (Rheolau Ansofdded (Cymru a Lloegr) 2016(5)), ym mharagraff (b), yn y troednodyn i Ddeddf Tai 1985(6), yn lle “o Ddeddf Tai 1989”, rhodder “o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989”.

(3) Yn Atodlen 2 (dirymiadau), yn y pennawd “Tabl 1”, hepgorer “1”.

(2) In Schedule 1 (amendments consequential upon the commencement of the Renting Homes (Wales) Act 2016)—

- (a) for the heading to paragraph 3 (Assured Tenancies (Notice to Tenant) Regulations 1981(1)), in the Welsh text, substitute “Rheoliadau Tenantiaethau Sicr (Hysbysiad i'r Tenant) 1981”;
- (b) in paragraph 19 (Long Residential Tenancies (Principal Forms) Regulations 1997(2)) in sub-paragraphs (b)(ii) and (iii), omit “monthly”;
- (c) in paragraph 20 (Financial Services and Markets Act 2000 (Collective Investment Schemes) Order 2001(3)), in sub-paragraph (a), for “paragraph”, substitute “sub-paragraph”;
- (d) in paragraph 21 (Allocation of Housing (Wales) Regulations 2003(4)), in the English text, for sub-paragraph (a), substitute—
 - “(a) in regulation 2 (interpretation)—
 - (i) after the definition of “the Common Travel Area”, omit “and”;
 - (ii) for the full stop at the end of the definition of “the immigration rules”, substitute “; and”;
 - (iii) after the definition of “the immigration rules”, insert—
 - ““secure contract” (“*contract diogel*”) has the same meaning as in the Renting Homes (Wales) Act 2016 (see section 8 of that Act).”;
- (e) in paragraph 30 (Insolvency (England and Wales) Rules 2016(5)), in paragraph (b), in the footnote to the Housing Act 1985(6), after “section 163 of the”, insert “Local Government and”.

(3) In Schedule 2 (revocations), in the heading “Table 1”, omit “1”.

(1) O.S. 1981/591.
(2) O.S. 1997/3008.
(3) O.S. 2001/1062.
(4) O.S. 2003/239 (Cy. 36).
(5) O.S. 2016/1024.
(6) 1985 p. 68.

(1) S.I. 1981/591.
(2) S.I. 1997/3008.
(3) S.I. 2001/1062.
(4) S.I. 2003/239 (W. 36).
(5) S.I. 2016/1024.
(6) 1985 c. 68.

Julie James

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion
Cymru
24 Hydref 2022

©[©] Hawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

Minister for Climate Change, one of the Welsh
Ministers
24 October 2022

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

£4.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/1077>

ISBN 978-0-348-39373-6



9 780348 393736